

O BIRMINGHAM  
I BENFRO...

Natalie  
Jones



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



ADDYSG CYMRU  
EDUCATION WALES  
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

## Efallai ei bod yn ymddangos yn stori annhebygol i ferch o Birmingham o darddiad Jamaicaidd ddechrau ar yrfa yn addysgu Cymraeg yn Sir Benfro - ond dyna daith Natalie Jones.

**Ar ôl cael ei magu yn Birmingham nes ei bod yn naw oed, symudodd teulu Natalie i Bwllheli, o ble roedd ei thad yn dod. Ni allai'r ddwy ardal fod wedi bod yn fwy gwahanol, fel y cofia Natalie.**

"Roedd yn brofiad eithaf swrealaidd: ni oedd yr unig ddisgyblion du yn yr ysgol a'r Gymraeg oedd y brif iaith oedd yn cael ei siarad bellach. Serch hynny, profodd pa mor bwysig yw trochi eich hun mewn iaith, gan mai fy unig radd 'A' TGAU oedd Cymraeg!"

**Ar ôl TGAU cwblhaodd Natalie NVQ mewn busnes yng Ngholeg Meirion Dwyfor cyn cychwyn ar yrfa ym maes manwerthu a gwerthu. Dyfalbarhaodd gyda'i hastudiaethau Cymraeg a chwblhaodd NVQ mewn Cymraeg; yn ystod y cyfnod hwn roedd hi'n teimlo awydd i fynd i addysgu, ond gan nad oedd ganddi radd, aeth hi ddim pellach.**

**Llwyddodd Natalie i gychwyn ar gwrs seicoleg plant, fodd bynnag, ac roedd yn ystyried gyrfa fel seicolegydd addysg - cyn iddi gael diagnosis a newidiodd ei bywyd.**

"Dyma pryd y dywedwyd wrtha i fod gen i ganser. Roeddwn i'n ffodus ei fod yn bosibl ei drin â llawdriniaeth a rhaglen o radiotherapi a meddyginiaeth - ond fel sy'n digwydd mor aml gyda phrofiadau o'r fath, mae'n rhoi persbectif newydd i chi ar fywyd.

"Ailsbardunwyd fy uchelgais i ddod yn athrawes. Roeddwn i wedi bod yn gweithio fel Mentor Ymgysylltu a Dysgu mewn ysgolion uwchradd yn Sir Benfro ac yn fwy diweddar rydw i hefyd wedi bod yn cyflwyno gweithdai trosedd casineb mewn ysgolion i Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Hil Cymru. Rhoddodd hyn flas i mi o weithio gyda phlant a phobl ifanc, a mwynheais yn fawr.

"Rydw i bellach yn agosáu at ddiwedd fy nghwrs TAR ac wedi sicrhau swydd yn dysgu mewn ysgol gynradd yn Neyland gyda chyfrifoldeb ychwanegol dros ddysgu Cymraeg fel ail iaith ar draws yr holl ysgol i'r plant a'r athrawon - ac alla i ddim aros."

**Mae hi'n pryderu am y diffyg athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion ledled Cymru ac yn gobeithio y bydd y cwricwlwm newydd yn chwarae rôl wrth newid hynny.**

"Mae angen modelau rôl arnom ni ym mhob proffesiwn ac nid yw addysgu yn ddim gwahanol - os ydych chi'n ddisgybl o liw yn yr ysgol ond ddim yn gweld unrhyw athrawon sy'n edrych fel chi, gallwch chi feddwl 'nid dyma'r proffesiwn i mi', ond mae angen i ni newid hynny.

"Mae ymgorffori dysgu hanes Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y cwricwlwm newydd yn sicr yn gam pwysig i'r cyfeiriad cywir ac rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at chwarae fy rhan wrth ei gyflwyno."

#AddysguCymru  
www.addysgwyr.cymru